***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

### RHAN 6

### ANGHYMHWYSO FEL AELOD O SAC NEU GYFLOGAI IDDI

26 (1) Ni all person gael ei benodi yn aelod o SAC neu yn gyflogai iddi os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).

(2) Mae person yn peidio â bod yn aelod o SAC neu yn gyflogai iddi os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-baragraff (3).

(3) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o SAC neu'n gyflogai iddi os yw'r person—

- (a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, neu ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran y canlynol—
  - (i) y Goron,
  - (ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu
  - (iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;
- (c) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;
- (d) yn Aelod o Senedd yr Alban; neu
- (e) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

(4) Mae is-baragraff (3)(b) i'w anwybyddu yn achos yr Archwilydd Cyffredinol.